

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr: J. Aviet, G.M. Ball, I. Buckley, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, M.G.J. Morgan ac S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro) a G. Doyle, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor Tenantiaid / Panel); Cynghorwyr E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

296 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

297 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan ac Y Cynghorydd S. Campbell; a D. Dutch (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel).

298 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2022 fel cofnod cywir.

299 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

300 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU DIGIDOL –

Rhodddwyd y cyflwyniad gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cysylltiadau Cwsmeriaid, a esboniodd fod, ers 2021, timau Cysylltiadau Cwsmeriaid, Datblygu'r We a Gwella Busnes wedi gweithredu'r platfform digidol 'GovService', sy'n seiliedig ar gwmwl, er mwyn disodli datrysiad Oracle CRM y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys darparu offer ac ymarferoldeb ar-lein nad oedd ar gael yn flaenorol i drigolion y Fro a

oedd yn caniatáu iddynt wneud llawer mwy ar-lein tra ar yr un pryd staff cefnogi i ddarparu gwasanaeth gwell dros y ffôn neu wyneb yn wyneb i breswylwyr hefyd. Yn yr un modd, byddai'r buddsoddiad yn system Tai NEC yn darparu'r un math o gyfleoedd i denantiaid.

Ar y cyfan, byddai'r platfform(au) digidol newydd yn safoni ac yn symleiddio mynediad at wasanaethau ar draws pob sianel, yn ogystal â helpu i fonitro ac asesu pa ofynion oedd ar wasanaethau unigol, megis sawl gwaith y cysylltodd trigolion â'r Cyngor ynghylch mater penodol. Byddai hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau trigolion o gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ac yn creu cyfleoedd i wneud gwelliannau. Er bod dwy system yn cael eu gweithredu, roedd y ddau dîm prosiect dan sylw yn gweithio gyda'i gilydd i roi profiad 'esmwyth' i drigolion a thenantiaid, er mwyn osgoi'r angen i drigolion orfod 'neidio' o un platfform i'r llall er mwyn cael mynediad at wahanol wasanaethau

Roedd cyflwyno'r GovService yn mynd yn ei flaen yn dda, ac roedd y Cyngor ar y targed i gymryd lle neu i symud ei holl brosesau o Oracle CRM i blatfform GovService yn y dyfodol agos, gan gynnwys Rheoli Tai, Teleofal, Bathodynau Car Glas ac integreiddio â Rheoli Asedau.

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn diwallu anghenion trigolion, roedd y Cyngor wedi dechrau prosiect ymchwil defnyddwyr, oedd yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau tenantiaid er mwyn profi a rhoi adborth ar wasanaethau digidol, yn ogystal â chynrychiolwyr eraill o gymunedau o bob rhan o Fro Morgannwg.

Un o brif fanteision platfform GovService oedd pa mor hawdd oedd integreiddio â systemau eraill fel y gellid pasio gwybodaeth a diweddariadau'n gyflym, yn hawdd ac yn awtomatig rhwng gwasanaethau ac i drigolion y Fro. Yn ddiweddar, roedd y Cyngor wedi profi integreiddio rhwng platfform GovService a'r platfform Rheoli Asedau Gwasanaethau Cymdogaeth newydd a oedd yn caniatáu i wybodaeth gael ei harddangos drwy fapio ar-lein, a oedd yn cynnwys statws asedau allweddol ac eitemau nad ydynt yn asedau, h.y. goleuadau stryd, tyllau yn y ffordd a thipio anghyfreithlon / sbwriel. Byddai trigolion wedyn yn cael diweddariadau mewn 'amser real', naill ai drwy sefydlu cyfrif ar-lein neu drwy e-bost.

O ran uwchraddio'r Systemau Tai ac Adeiladu Atgyweirio, dechreuwyd cynllun gweithredu aml-lwyfan i fynd i'r afael â'r systemau hynny sydd â'r risg uchaf neu a fyddai'n disgyn allan o gefnogaeth yn gyntaf, ac yna symud ymlaen i systemau sy'n wynebu breswylwyr / tenantiaid dros gyfnod 2022-2023.

Yn ogystal â'r uchod, roedd nifer o fentrau yn ymwneud â digidol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Roedd Gweithgor Argyfwng Costau Byw Cyngor Bro Morgannwg wedi edrych ar effaith yr argyfwng ar allu preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau digidol ac elwa arnynt. Roedd cynlluniau fel y Banc Data Cenedlaethol yn cael eu hymchwilio i helpu trigolion gyda mynediad i'r we gan ddefnyddio cardiau SIM am ddim ar ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen. Roedd y Cyngor wedi ymrwmo i gyhoeddi gwybodaeth am gytundebau Band Eang Cymdeithasol a gwybodaeth debyg am y Hwb Argyfwng Cost-Byw ar wefan y Cyngor ac roedd hyn hefyd wedi'i rannu gyda phobl sy'n trafod galwadau Cyswllt Un Fro a staff rheng flaen eraill er mwyn lledaenu i'r cyhoedd. Yn olaf, roedd cynllun 'llyfrgell pethau', lle

gallai trigolion fenthyg offer, ac ati am gost isel, yn ogystal â gwasanaethau rhannu cyfrifiaduron llechen, rhaglenni i helpu pobl gyda'u sgiliau digidol, ac ati sydd ar gael drwy'r Cyngor.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- Ar gwestiwn y Cynghorydd Aviet ynghylch a fyddai unrhyw staff Cyswllt Un Fro yn cael eu cymryd i ffwrdd o'u prif rôl ac yn cael secondiad i'r prosiectau hyn, cadarnhawyd nad oedd cynlluniau ar hyn o bryd i secondio staff Cyswllt Un Fro i'r gwahanol brosiectau digidol. Pe bai ymddygiad cwsmeriaid / preswylwyr yn newid o ran sut maent yn cyrchu gwasanaethau oherwydd y cyflwyno digidol, yna byddai'r Cyngor yn edrych eto ar sut yr adleolir staff Cyswllt Un Fro, ac ati. Ar gwestiwn dilynol y Cynghorydd am ba mor hawdd fyddai hi i breswylwyr ddod o hyd i wasanaethau ar-lein a'u cyrchu, eglurwyd y byddai profion yn cael eu cynnal gyda phreswylwyr a grwpiau eraill o wirfoddolwyr er mwyn sicrhau y gallent gael mynediad at wasanaethau ar-lein yn gyflym ac yn hawdd.
- Ar yr her o sicrhau bod preswylwyr yn barod ar gyfer y newid hwn o ran cael mynediad at wasanaethau a chawsant wybod bod modd cael mynediad at wasanaethau ac ymholiadau o hyd a'u gwneud dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, roedd yn bwysig pwysleisio bod yr holl broses yn ymwneud â gwella gwasanaethau waeth sut y dewisodd trigolion gysylltu â'r Cyngor. Roedd angen i'r Cyngor wneud yn siŵr pa bynnag ffordd yr oedd pobl yn cysylltu ag ef, boed hynny ar-lein, dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb, eu bod nhw wedi cael profiad gwyb.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Hennessy ar sut y cyrchodd trigolion y platfform newydd, gallai hyn gael ei wneud drwy greu cyfrif ar-lein, gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. Manteision sefydlu cyfrif oedd y gallai preswylwyr olrhain unrhyw beth y gwnaethon nhw ei gofnodi neu ei adrodd drwy'r cyfrif, yn ogystal ag adrodd am faterion eraill drwyddo, heb orfod ailgyflwyno eu manylion eto. Hefyd, gellid sefydlu'r cyfrif yn gyflym ac yn hawdd, dim ond cyfeiriad e-bost sydd ei angen i anfon gwiriad cyfrif a byddai'n un pwynt lle gallai preswylwyr gael mynediad at gyfrifon / gwasanaethau eraill ar-lein, fel eu cyfrifon Treth Gyngor neu Rent Tai. Fodd bynnag, gallai materion barhau i gael eu hadrodd gan preswylwyr heb gyfrif, pe dymument hynny.
- Cyfeiriodd G. Doyle (Cynrychiolydd Tenantiaid) at rai problemau cychwynol wrth gael mynediad i'w cyfrif ar-lein i roi gwybod am olau stryd wedi torri, ac, ar ôl iddynt allu adrodd y mater ar-lein, yr aros hir ar ôl hynny i gael yr eitem hon wedi'i hatgyweirio. Cawson nhw wybod y gallai'r oedi i'r gwaith atgyweirio fod wedi digwydd oherwydd bod y tîm perthnasol wedi gorfod blaenoriaethu gwaith atgyweirio mwy brys, yn ogystal â'r posibilrwydd o orfod anfon gwaith o'r fath i gontractwyr neu asiantaethau allanol. Gyda'r systemau ar-lein newydd ac integreiddio'r rhain, gall preswylwyr gael gwell gwybodaeth ar gynnydd ceisiadau o'r fath, gyda'r gallu i ddarparu llinell amser i'w hatgyweirio, ac ati.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hanks at yr angen i ddarparu profiad cyffredinol gwell ar gyfer preswylwyr sy'n adrodd materion, ac ati i Cyswllt Un Fro, gan ddweud y dylai preswylwyr dderbyn cyfeirnod ar gyfer mater neu atgyweiriad yr oeddent wedi mewngofnodi trwy Cyswllt Un Fro, yn hytrach nag e-bost

generig yn cadarnhau derbyn eu cais. Eglurwyd, o dan weithdrefnau trin galwadau'r Cyngor, y dylid rhoi cyfeirnod at adroddiadau logio preswylwyr, ac ati drwy eu galwad ffôn ac e-bost cadarnhau yn cael ei anfon atynt. Byddai hyfforddiant a chefnogaeth bellach yn cael eu rhoi i staff trin galwadau er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cyfeirnod ar gyswllt cychwynol gyda phreswylwyr ac ar unrhyw e-byst dilynol a anfonwyd.

- Ar ymholiad y Cynghorydd Perkes ynghylch a oedd y cynllun ar gyfer benthg iPads a chefnogaeth ddigidol gyffredinol i gymunedau lleol wedi dechrau eto ac wedi gwella yn dilyn diwedd cyfyngiadau Covid-19, eglurwyd bod cynlluniau o'r fath, yn gyffredinol, wedi'u tanddefnyddio, ac roedd y Cyngor yn gobeithio hyrwyddo'r gwasanaethau hyn yn fwy drwy Grŵp Arwyr y Fro. Byddai gwybodaeth yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar y ffigyrau perthnasol ar fenthg cyfrifiaduron llechen, ac ati yn dilyn y cyfarfod. Byddai'r Cyngor yn gobeithio dod â'r holl offer sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hyn at ei gilydd er mwyn rhannu'r rhain yn decach rhwng y cynlluniau hynny a gafodd eu gordanysgrifio o'r rhai a danysgrifiwyd. Gyda'r cynnydd posib o dlodi data, law yn llaw â'r argyfwng costau byw, roedd disgwyl y byddai'r galw am wasanaethau o'r fath ond yn tyfu wrth symud ymlaen.
- Dywedodd yr Is-gadeirydd fod angen i'r Cyngor estyn allan i grwpiau, fel pobl hŷn, er mwyn cael y 'neges allan yna' o ran help y gellid ei ddarparu iddynt o amgylch tlodi data a mynediad at wasanaethau digidol. Yn ôl eu natur, roedd angen i negeseuon o'r fath fod yn hygyrch all-lein ac ar-lein. Cytunodd y Rheolwr Gweithredol, gan ddweud bod angen i'r Cyngor weithio gydag asiantaethau partner a sefydliadau trydydd sector i ledaenu'r negeseuon ar gymorth digidol (gan gynnwys trwy fformat di-ddigidol) fel rhan o gynllun cyfathrebu cyffredinol. Gallai staff Cyswllt Un Fro a thimau neu wasanaethau rheng flaen eraill y Cyngor hefyd gael eu defnyddio i ledaenu'r cyngor a'r cymorth hwn ynghylch cael mynediad at wasanaethau yn ddigidol i breswylwyr y daethant i gysylltiad â nhw.
- Fe wnaeth y Cynghorydd Morgan hefyd ategu'r angen i drigolion allu cysylltu â'r Cyngor drwy ddulliau digidol a mwy traddodiadol, hynny yw dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.
- Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu i siarad, a gyfeiriodd at yr angen i'r Cyngor reoli disgwyliadau cyhoeddus pan fyddant yn cysylltu â'r Cyngor i roi gwybod am faterion fel goleuadau stryd wedi torri, ac roedd yn hanfodol bod y systemau RhCC a Thai newydd yn cael y gofyniad i hysbysu'r cyhoedd o amserlenni wedi'i integreiddio ynddynt ar gyfer unrhyw waith atgyweirio ac eitemau eraill y maent yn eu hadrodd a rheoli'r rheini yn unol â hynny. Cyfeiriwyd hefyd at y rhaglen meddalwedd Cyswllt Un Fro y gallai trigolion ei lawrlwytho er mwyn cofnodi cais, a oedd hefyd yn creu rhif cyfeirnod. Cyfeiriwyd at yr angen i ddarparu 'is-bennawd' ar unrhyw e-byst a anfonwyd gan Cyswllt Un Fro, ac ati at drigolion ar ôl iddynt logio cais neu geisiadau, er mwyn rhoi cyd-destun ynglŷn â beth oedd yr ymateb, a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol lle'r oedd trigolion wedi cofnodi adroddiadau neu geisiadau lluosog i'r Cyngor. Yn olaf, fe wnaethon nhw awgrymu y dylai pob adroddiad sydd wedi mewngofnodi trwy Cyswllt Un Fro gael ei 'gau' pan gaiff ei gwblhau a dylid rhoi gwybod i'r cyhoedd am gynnydd eu hadroddiadau. Eglurwyd y byddai'r awgrymiadau hyn naill ai'n cael eu hystyried neu eu bod eisoes wedi'u trin ar y systemau newydd.

- Cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus at faint o drafodion a'r math o drafodion a gafodd Gwasanaethau Tai yn benodol, y mwyafrif ohonynt yn cael eu disgrifio fel cyfaint uchel, ond trafodion syml, h.y. gwirio balans cyfrif Tenantiaid. Byddai defnyddio'r system ddigidol newydd yn rhyddhau staff i ddelio ag ymholiadau wyneb yn wyneb mwy cymhleth, lle roedd pobl angen cyngor neu o bosib yn cael eu heffeithio gan ddiartrefedd neu broblem cymydog. Roedd y Tîm Tai yn rhan o nifer o fentrau o amgylch cynwysoldeb digidol h.y. defnyddio 'hyrwyddwyr' tenantiaid a digidol eraill sy'n mynd i gymunedau, hyfforddi unigolion a chefnogi tenantiaid unigol i wella eu sgiliau digidol a rhifedd. Roedd llawer o waith wedi bod o amgylch cynlluniau tai gwarchod, fel darparu mynediad band eang yn y cynlluniau hyn drwy gyllid grant. Yn olaf, drwy ddefnyddio ymarfer proffil y tenantiaid, gellid adnabod tenantiaid a allai elwa o'r cynlluniau cynhwysiant digidol sydd ar gael.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyflwyniad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – NODI'r cyflwyniad ynghylch y Diweddariad ar Brosiectau Digidol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

301 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Cabinet o 8 Medi, 2022 gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai a amlinellodd yn gyntaf gefndir deddfwriaethol y broses hon (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021), a oedd yn ei hanfod, yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru (LIC) i Awdurdodau Lleol edrych ar eu perfformiad yn ôl-weithredol ac i 'brofi' hyn drwy asesiad blynyddol. Roedd y ddeddfwriaeth hefyd yn gofyn i'r Cyngor mewn unrhyw dymor gwleidyddol wneud yr un asesiad a defnyddio proses cymheiriaid / panel (gan gynnwys sectorau busnes a gwirfoddol).

Roedd y broses yn cynnwys y Cyngor yn hunan-fyfyrio a gofyn i'w hun 'pa mor dda ydyn ni'n gwneud?', 'pa mor dda ydyn ni'n gwario arian cyhoeddus?', 'pa mor dda ydyn ni'n gweithredu?' a 'sut gallwn ni wneud yn well?', gyda mewnbwn gan Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid.

Aeth ymlaen i amlinellu'r broses ei hun, a sut roedd yr hunan-asesiad hwn yn ffitio ac yn bwydo i mewn i broses gyffredinol Cynllun Busnes y Cyngor ac i'r Cynllun Datblygu Blynyddol (CDB) ar gyfer 2023/24, yn ogystal â'r Cynlluniau Gwasanaeth unigol, ac ati, ac amserlen y broses hunan-asesu ei hun. Yn ogystal, roedd llywodraethu archwilio mewnol ac allanol y Cyngor yn bwydo i mewn i'r asesiad hefyd.

O ran meysydd sy'n dod i'r amlwg i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt, roedd hwn yn gyfnod heriol i'r Cyngor a'i drigolion, gyda ffocws nesaf y CDB i fod ar y rhai sy'n agored i niwed, materion yn ymwneud â bwyd a chartrefi i drigolion ac effaith y rhyfel

yn Wcráin (h.y. trafod ffoaduriaid o'r gwrthdaro), yn ogystal ag angen y Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau tymor hir sy'n gysylltiedig â Brexit, y pandemig a'r argyfwng costau byw.

Roedd y ddogfen hunan-asesu yn anghyflawn ar hyn o bryd, oherwydd yr angen i goladu a phrosesu'r ymatebion a ddarparwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned, trigolion a rhanddeiliaid eraill yn ddiweddar o amgylch perfformiad y Cyngor h.y. ynglŷn â'r CDB. Yn dilyn unrhyw sylwadau ac argymhellion a wnaed gan y Pwyllgorau Craffu, byddai'r hunanasesiad yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet er mwyn ei ystyried cyn i adroddiad Hunan-Asesiad Blynyddol Bro Morgannwg terfynol gael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y materion allweddol a'r heriau a amlygwyd fel rhan o hyn (megis Brexit, y pandemig a'r argyfwng costau byw) a gofynnodd a oedd amcanion CDB y llynedd yn dal yn addas i'w pwrpas, er mwyn iddynt gael eu hystyried ar gyfer y CDB newydd, neu a fyddai angen gwneud rhai newidiadau neu addasiadau iddyn nhw. Esboniodd y Cyfarwyddwr, oherwydd natur 'eang' iawn Cynllun Corfforaethol y Cyngor, ei fod yn dal i fod yn berthnasol, tra byddai angen gwaith ar amcanion a gweithredoedd presennol y CDB, oherwydd yr heriau sylweddol a ddaeth i'r amlwg dros y 12 mis diwethaf a'r ffaith mai cynllun 12 mis oedd hwn. Byddai angen i'r CDB newydd felly roi mwy o sylw i'r argyfwng costau byw a thrigolion bregus, yn ogystal â delio mwy â'r argyfwng tai, gyda cheiswyr lloches, ffoaduriaid Wcreinaidd a thrigolion Bro Morgannwg i gyd yn chwilio am dai. Mantais y CDB oedd ei fod yn rhoi cyfle i'r Cyngor bob blwyddyn edrych ar ble roedd am fod o ran ei amcanion, ei weithredoedd, mynd i'r afael â materion ac ati, ac felly roedd yn ddogfen yn cael ei newid, a olygai y gallai symud yn gyflym i godi a chwrdd â heriau holl drigolion y Fro. Yr her arall oedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fyddai'n cyd-fynd â'r CDB a'r cyllid ac adnoddau oedd gan y Cyngor ar gael i gyflawni'r camau hynny o ganlyniad.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – BOD barn ac argymhelliad(ion) y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried cyn i adroddiad Hunanasesu Blynyddol terfynol Cyngor Bro Morgannwg gael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, sef:

- Bod yr heriau allweddol sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â thai a materion cysylltiedig ym Mro Morgannwg yn cael ystyriaeth briodol wrth lunio Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor a blaenoriaethau perfformiad cyffredinol / meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol, er mwyn gallu mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol.

Rheswm dros yr argymhelliad

I'r Cabinet ystyried sylwadau ac argymhelliad(ion) y Pwyllgor Craffu er mwyn helpu i lywio dull y Cyngor o fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

302 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST, 2022 (CAT) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg yr adroddiad i'r Pwyllgor, a ddywedodd fod y pwysau sy'n dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau sefydlog ynni, y cynnig dyfarniad cyflog diweddar, chwyddiant cyffredinol (yn enwedig mewn meysydd fel trafndiaeth ysgol) a chostau byw a phwysau staffio. Roedd chwyddiant a phwysau galw yn cael eu profi ar draws holl wasanaethau'r Cyngor a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Yn bresennol, roedd sefyllfa gyffredinol gytbwys ac roedd y pwysau costau wedi'u bodloni o danwariant yn y Gyllideb Bolisi (o ganlyniad i ddefnyddio benthyca mewnol, felly osgoi costau benthyca allanol) a rhywfaint o dynnu arian wrth gefn gwasanaethau. Fe wnaeth y Cyngor hefyd barhau i hawlio rhai symiau o galedi argyfwng gweddilliol a chynlluniau caledi yn gysylltiedig â Covid-19 ar gyfer meysydd fel prydau ysgol am ddim a thâl salwch statudol, ond roedd y rhain yn dirwyn i ben.

Roedd y Cyngor hefyd yn rhoi taliadau cyllid Wcráin, grantiau gofalwyr cynllun costau byw dewisol a thaliadau tanwydd gaeaf.

O ran chwyddiant a phwysau ariannol eraill ar wasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, amlygwyd y canlynol:

- Tai Cronfa Gyngor: cyfeiriwyd at y partneriaid meddiannu, fod Tŷ Tregatwg yn wag a allai achosi problem o ran incwm rhent, yn ogystal â chyfeirio at y gwaith parhaus o fewn y gwasanaeth Datrysiadau Tai i leihau'r ddibyniaeth ar lety gwesty ar gyfer cleientiaid digartref, oedd wedi bod ei angen yn ystod pandemig Covid-19, a chyda chyllid Llywodraeth Cymru yn y maes hwn i gael ei leihau.
- Tai Preifat: roedd pwysau posib ynghylch incwm ffioedd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, er bod hynny'n dal i gael ei liniaru ar hyn o bryd.

Cyfeiriwyd at y defnydd o gronfeydd wrth gefn hefyd (gan gynnwys defnydd wedi'i gynllunio h.y. ar gyfer gwariant a phrosiectau cyfalaf, yn ogystal â defnydd heb ei gynllunio i ariannu gorwario sy'n dod i'r amlwg) a monitro costau benthyca / benthyca i'r Cyngor, yn ogystal â buddsoddiadau a wnaed gan y Cyngor, a oedd wedi gweld enillion cymharol dda oherwydd cyfraddau llog uwch.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at y mesurau a wnaed gan y Cyngor i liniaru rhai o'i bwysau cost, h.y. roedd y Cyngor wedi prynu ei ynni ymlaen llaw, ond gofynnodd hefyd am y pwysau cost posibl, heriau ac effeithiau y gellid eu teimlo gan y Cyngor dros y 12 mis nesaf. Eglurwyd y byddai'r Cyngor, yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn wynebu pwysau cost £3m a ragwelir, yn ymwneud yn unig â chostau ynni, oedd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Adfywio Ariannol Tymor Canolig a fyddai'n mynd i'r Cabinet yn fuan. Byddai'r ffigwr hwnnw'n cael ei adolygu gan y byddai'n ddibynnol ar yr amgylchiadau sy'n newid o gwmpas costau tanwydd dros y flwyddyn.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) Y DYLID nodi'r trefniadau ar gyfer gwrthbwysu'r gorwariant sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23 fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

303 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU CHWARTER 1AF AC 2IL 2021/22 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Swyddog y Gwasanaethau Democraidd a Chraffu wybod i'r Pwyllgor am gynnydd argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu ac Amserlen y Flaenraglen Waith Flynyddol wedi'i diweddarau ar gyfer 2022/23:

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- Holodd y Cynghorydd Hanks statws y diweddariad teledu cylch cyfyng ar amserlen y Flaenraglen Waith ac a fyddai modd cyflwyno hyn i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos. Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thai fod symudiad sylweddol wedi bod ynglŷn â disodli system teledu cylch cyfyng yn y Fro a bod hyn wedi dechrau cael ei fonitro gan bartneriaid y Cyngor yng Nghaerdydd. Felly, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y cynnydd hwn yn y dyfodol agos iawn a byddai Amserlen y Rhaglen Waith yn cael ei diwygio er mwyn adlewyrchu hyn.
- Ar ymholiad y Cynghorydd Hennessy ar unrhyw ddiweddariad pellach mewn perthynas â'r argymhelliad heb ei gwblhau ar nodi datrysiad tai priodol ar gyfer y gymuned Teithwyr, eglurwyd bod gwaith ar ddod o hyd i safleoedd eraill yn parhau, gydag Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i ddod ymlaen dros y misoedd nesaf.
- Amlygodd y Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Chraffu i Aelodau fod angen symud yr adroddiad Monitro Cyfalaf a oedd wedi'i drefnu ar gyfer Pwyllgor mis Hydref ar Amserlen y Rhaglen Waith, i'r cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd, a gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor i ddiwygio'r Atodlen yn unol â hynny.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i C yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau'r Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor, yn amodol ar wneud y newidiadau a ganlyn:

- Symud yr adroddiad Monitor Cyfalaf o fis Hydref i fis Tachwedd yn y Rhestr Rhaglen Waith;
- Diwygio statws y Diweddariad TCC ar y Rhaglen Waith i gyfeirio y bydd yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.